

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Mai 9fed 2016 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Ebrill** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Dewi Evans yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Peiriannau talu ar y Cyfleusterau Cyhoeddus dal heb ei tynnu. Y clerch i gysylltu gyda Conwy eto.
 - 5.2. Fflag y Ddraig Goch newydd wedi ei osod.
 - 5.3. Dwr yn sefyll yn y cae gyferbyn a Llifon – wedi cysylltu gyda'r Stad.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. C.B.S.C.- wedi derbyn y taliad cyntaf o'r presept **£1217. 00**.
 - 6.2. C.B.S.C.- Gwrthdrawiad ar yr A543 – wedi derbyn cadarnhad o'n llythyr yn mynegi pryder o'r gor-yrru ar hyd y ffordd.
 - 6.3. Un Llais Cymru – angen dau gynrychiolydd. Cynigiodd Alun Edwards roi ei enw ymlaen fel eilydd i Edmund Rees.
7. **Talu Anfoneb:** Hill & Roberts, Cyfrifwyr - cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio talu'r anfoneb o **£105.00 + TAW £21.00 = £126.00** gyda siec rhif **100264**.
8. **Un Llais Cymru:**

Cafwyd adroddiad gan Edmund Rees o'r Pwyllgor diwethaf. Materion o bwys:
Cychwynnir y cyfarfod gyda chyflwyniad ar waith allweddol a phwysig Ymatebwyr Cyntaf Gogledd Cymru.
Archwilio Ariannol: proforma llythyr ar gael i apwyntio archwilydd mewnol.
Rhai cynghorau yn gorfod codi'r presept oherwydd costau uchel yr archwilydd allanol.
Cyfansoddiad Un Llais Cymru – newidiadau i ddod.
Hyfforddiant: i ddod yn orfodol i bob Cynghorwr.
Arferion da: darparu pethau ychwanegol ar gyfer y gymuned e.e. biniau baw cŵn (yn gwneud yn barod)
Derbyn Cwynion: gofyn i bob cyngor ddarparu modd ffurfiol o dderbyn cwynion e.e. trwy wefan/e-bost y Cyngor (Cyngor hefo hyn yn barod).
9. **Cadarnhau'r Archwiliwr Mewnol:**

Derbyniwyd cadarnhad gan Rhian Evans trwy lythyr nad oedd ganddi unrhyw gysylltiad gyda'r Cyngor nac ychwaith yng ngwaith y Cyngor.
10. **Mantolen Ariannol:**

Gan nad oedd Rhian Evans yr Archwilydd Mewnol yn gweld ei ffordd yn glir i gwblhau ac arwyddo'r ffurflen methwyd a chwblhau'r Fantolen Ariannol. Methwyd hefyd gydnabod cyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a'i cadarnhau.
11. **Blodau a Chafnau:**
 - a) Cynigiodd Gari Jones gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn pwrcasu 2 fasged grog a'i gosod ar wal y cyfleusterau cyhoeddus.
 - b) Cynigiodd Alun Edwards gyda Dewi Evans yn eilio a phawb yn gytûn gwario uchafswm o £100 am flodau i'r pentref hyn i gynnwys y basgedi crog, 1 twb newydd a 5 bag o gompost.
 - c) Angen rhoi olew ar y cerfluniau pren eto eleni. Alun Edwards a Paul Weston i fod yn gyfrifol am hyn.
12. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.

13. **Unrhyw fater arall:**

13.1. Gan fod Rhian Evans ddim am arwyddo ffurflen y Fantolen Ariannol eleni cytunwyd yn gyntaf gysylltu â chyfrifwyr. Ar ôl cysylltu gydag Un Llais Cymru a chael gwybod bod yn iawn i Clerc Cyngor arall archwilio'r llyfrau ac ar gytundeb oll o'r Cyngorwyr penderfynwyd gofyn i Eirian Roberts, Clerc Cyngor Bro Garmon ac Ysbyty Ifan os base'n fodlon ymgymryd ar gwaith. Cytunwyd ar hun ac anfonwyd llythyr iddi a chafwyd cadarnhad nad oes ganddi unrhyw gysylltiad gyda'r Cyngor nac ychwaith yng ngwaith y Cyngor.

13.2. Canolfan Pentrefoelas – yn hysbysu'r Cyngor Cymuned fod Pwyllgor y Ganolfan wedi gwneud Cais i Gartrefi Conwy 'Cist Gymunedol' am grant ariannol i gefnogi pryniant o fyrddau chwarae cardiau a hefyd i neilltuo lleoliad parcio cerbydau ar gyfer yr anabl tua allan i'r brif fynedfa i'r ysgol.

13.3. Cwyn – mieri angen ei glirio rhwng yr afon a'r A5. Pont bren o gyfeiriad Pentre Felin i'r A5 angen sylw.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 6ed 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd Alun Owen
Cadeirydd

Dyddiad 06.06.16

